



DOSBARTHIADAU 2 a 3
BLYNYDDOEDD 8 a 9

1. Rhwch y rhifau 1 i 9 yn y cylchoedd.

Rhaid gosod y rhifau fel bo cyfanswm pob ochr yn 20.



Gwnewch yr un fath gyda'r triongl hwn.




Cyfanswm pob ochr y tro hwn yw 17.


2.

Sawl hecsagon rheolaidd sydd yn y llun?

Ateb _____



3.



Lliwiwch y sgwariau yn y grid hwn yn goch, yn wyn neu yn las fel bo:

pob sgwâr coch yn cyffwrdd â sgwâr gwyn
pob sgwâr gwyn yn cyffwrdd â sgwâr glas
pob sgwâr glas yn cyffwrdd â sgwâr coch


4. Gan gadw o fewn y bocs tynnwch 3 llinell:

llinell i gysylltu A â 2

llinell i gysylltu B â 3

llinell i gysylltu C ag 1

Ni ddylai'r llinellau groesi ei gilydd



5. Gan ddefnyddio'r rhifau hyn yn unig

12 14 18 32 48

ceisiwn ysgrifennu 5 rhif sy'n adio i 100.

Gallwn ddefnyddio'r rhifau yn y rhestr fwy nag unwaith.

Er enghraifft

$$18 + 18 + 18 + 14 = 100$$

Sawl ffordd arall fedrwch chi ei darganfod? Mae dau ateb yn bosib.

Atebion

_____ = 100
_____ = 100

6. Mae'r flwyddyn hon, 1991, yn flwyddyn balindromig. Hynny yw, mae'r rhif 1991 yn darllen yr un fath o'r dde i'r chwith ag o'r chwith i'r dde.


Pryd fydd y flwyddyn balindromig nesaf?

Ateb _____

Pryd oedd y flwyddyn balindromig ddiwethaf?

Ateb _____




7. Mae 9 dot wedi'u gosod yn sgwariau'r diagram hwn:



Mae cyfanswm y dotiau yn y 2 res o dri sgwâr a'r 2 golofn o dri sgwâr yn amrywio.

Fedrwch chi ail-drefnu'r dotiau fel bo cyfanswm o 4 dot ymhob rhes a cholofn?

Sawl ffordd wahanol fedrwch chi ei darganfod i wneud hyn?



8. Rwyf yn dymuno talu £555 gyda chymysgedd o bapurau £5 a phapurau £10.

Sut gallaf wneud hynny?

Ateb _____ papur £5 a _____ papur £10.

9. Rwyf yn meddwl am rif.

Y gwahaniaeth rhwng dwbl y rhif a hanner y rhif yw 99.

Beth yw'r rhif?

Ateb _____

10. Mae A, B, ac C yn cynrychioli digidau gwahanol ac mae

$$ABC + AB + A = 300$$

Beth yw'r digidau?

Ateb A = _____ B = _____ C = _____

11. Gwneir rhestr o'r rhifau cyfan olynol ar striced hir:

1 2 3 4 5 6 7 8 9 10 12.....

Yr 8fed digid yn y rhestr yw 8.

Y 15fed digid yn y rhestr yw 2.

Beth yw'r 1991fed digid?

Ateb _____